QAA Cymru

# Canllawiau

## Adeiladu Tacsonomeg o Ddulliau Dysgu Digidol



## Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**
**Adran 1: Datblygu dealltwriaeth o'r termau cyffredin** ........ **2**
Dulliau dysgu ar-lein, rhithwir neu ddigidol? ........ 2
Dulliau dysgu cyfunol neu hybrid? ........ 3
Dysgu o bell ........ 4
Dulliau darparu wyneb yn wyneb, drwy fynychu, ar y campws neu ar y safle? ........ 4
Cadw pellter cymdeithasol neu gorfforol? ........ 5
**Adran 2: Adeiladu tacsonomeg o brofiadau digidol myfyrwyr** ........ **6**
Ymgysylltiad/profiad digidol goddefol ........ 6
Ymgysylltiad/profiad digidol cefnogol ........ 7
Ymgysylltiad/profiad digidol estynedig ........ 8
Ymgysylltiad/profiad digidol rhyngweithiol ........ 9
Addysg drochi drwy ymgysylltiad/brofiad digidol ........ 10
**Adran 3: Adeiladu rhestr termau** ........ **11**
**Cydnabyddiaethau** ........ **17**

## Cyflwyniad

Ers Mawrth 2020, pan gyhoeddodd QAA ei chanllawiau cychwynnol am gynnal ansawdd a safonau yn ystod yr argyfwng, drwy gyfres o ganllawiau thematig ac adnoddau ategol, ein bwriad ni yw cefnogi'r sector i ddatblygu atebion i'r gofynion unigryw y mae'r sefyllfa COVID-19 wedi'u rhoi ar ddarparwyr ac ar y sector cyfan. Yn awr, mae QAA wrthi'n dechrau edrych y tu hwnt i'r argyfwng presennol i ddatblygu canllawiau ar y cyd â'r sector, ac mae'n cefnogi'r darparwyr wrth iddynt gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-21 a thu hwnt. Ar 2 Mehefin 2020, cyhoeddom ein cyhoeddiad cyntaf, yn rhan o'r trydydd cam hwn o'n canllawiau, am gynnal ansawdd a safonau addysg uwch y DU drwy gyfnod o newid cyflym yn ystod 2020-21, dan y teitl Preserving Quality and Standards Through a Time of Rapid Change: UK Higher Education in 2020-21. *[Nodwch fod y cyhoeddiadau uchod ar gael yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd.]*

Wrth ddatblygu'r papur hwn, rydym wedi parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r darparwyr ac mae cynnwys y papur yn ganlyniad i gyfres o drafodaethau rhyngom ni a chydweithwyr uwch o ystod eang o sefydliadau. O ganlyniad i'r argyfwng COVID-19, mae'r rhan fwyaf o'r darparwyr wedi gorfod newid arfer yn gyflym i ddarparu llawer mwy drwy ddulliau darparu digidol. Roedd hi'n amlwg yn y trafodaethau hyn bod y dulliau gwahanol - a pha mor gyflym y mabwysiadwyd rhai o'r dulliau hyn - wedi amlygu'r amrywiaeth a'r gwahaniaeth yn y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r profiadau dysgu digidol sydd ar gael ar draws y sector. Y sialens i ddarparwyr, felly, yw sut i gyfathrebu'n effeithiol a disgrifio'r hyn y byddent yn ei gynnig i'w myfyrwyr yn ystod 2020-21 (a thu hwnt) a sut y byddent yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Drwy gynhyrchu'r ddogfen hon, nod QAA yw helpu darparwyr addysg uwch y DU i ddatblygu iaith gyffredin i ddisgrifio dulliau digidol o ddarparu rhaglenni a'u cefnogi nhw i bennu'r hyn y gall y myfyrwyr ei ddisgwyl gan eu rhaglenni. Ei bwriad yw diffinio rhai o'r termau mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan ddarparwyr i ddisgrifio'r ffyrdd y maen nhw a'u myfyrwyr yn defnyddio dulliau digidol o ddysgu ac addysgu. Mae hefyd yn bwriadu mynd gam ymhellach a darparu categorïau cyffredinol o'r math o brofiadau y gall myfyrwyr eu disgwyl wrth ddilyn rhaglenni hyfforddiant ac addysg sy'n cynnwys elfennau digidol - yn amrywio o'r profiadau a'r ymgysylltu digidol sy'n 'oddefol' i'r rhai sy'n 'trochi'.

Nid yw QAA yn bwriadu i'r ddogfen hon osod unrhyw ofynion rheoleiddiol mewn perthynas â dulliau digidol o ddysgu ac addysgu. Yn hytrach, lluniwyd y ddogfen i gefnogi darparwyr wrth iddynt ddatblygu eu ffyrdd o siarad am ddulliau darparu digidol, gan ddisgrifio'r hyn y gall myfyrwyr ei ddisgwyl ac, o ganlyniad, deimlo'n dawelach eu meddwl bod yr ansawdd a'r safonau'n cael eu cynnal. Ei bwriad yw bod yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth ehangach ynghylch y ffordd y gall y darparwyr siarad ymysg eu hunain a siarad â'i gilydd a gyda myfyrwyr am y gwahanol ddulliau darparu hyn, mewn ffyrdd mwy cyson a haws eu deall. Yn dilyn hyn, bydd QAA yn ymgysylltu â'i haelodau ymhellach i benderfynu sut y gellir ymwreiddio dull cyffredin o ddiffinio'r termau hyn ar draws y sector a bydd yn mynd ati i weithio gydag asiantaethau'r sector i geisio mabwysiadu terminoleg gyson ar gyfer dulliau darparu digidol.

## Adran 1: Datblygu dealltwriaeth o'r termau cyffredin

Wrth ddatblygu'r papur hwn, daeth hi'n amlwg bod pobl yn hyblyg iawn yn y ffordd y maen nhw'n diffinio elfennau o addysg ddigidol, a bod y termau a ddefnyddient yn newid yn aml iawn yn dibynnu ar y cyd-destun a'r gynulleidfa. Roedd hi'n amlwg hefyd, wrth siarad am agweddau o addysg ddigidol, bod yr amrywiaeth hwn yn eu disgrifiad o elfennau penodol yn gwahaniaethu rhwng pobl o fewn yr un darparwr heb sôn am wahaniaethu rhwng un darparwr ag un arall. Yn aml iawn, gallai staff un darparwr ddefnyddio un term wrth siarad â chydweithwyr, term arall (ar gyfer yr un peth) wrth gyfathrebu gyda chydweithwyr y tu allan i'w sefydliadau, a thrydydd term wrth gyfathrebu â myfyrwyr. Mae'n bosibl hefyd bod ffactorau eraill wedi dylanwadu ar y termau hyn, ffactorau megis polisi sefydliadol, y doreth ddiweddar o ganllawiau gan y cyrff rheoleiddio neu'r sector, unigolion dylanwadol neu bobl sy'n dewis peidio defnyddio termau eraill am yr un peth am nad ydynt yn eu hoffi.

Wrth geisio symud at un dull cyffredin o ddisgrifio sut y gallai myfyrwyr ymgysylltu ag addysg ddigidol, mae QAA wedi trafod yr amrywiaeth yn y termau a ddefnyddir gan ddarparwyr i esbonio'r hyn y maent yn ei gynnig, a'r hyn y maent yn bwriadu ei gynnig yn y dyfodol. Rydym wedi cynnwys y mwyaf cyffredin o'r rhain yn ein rhestr termau (yn adran 3). Fodd bynnag, mae rhai termau trosfwaol a ddefnyddir yn aml oedd yn gofyn mwy o drafodaeth na dim ond diffiniad syml. Tueddir i gyfnewid y termau yn yr adran hon rhwng ei gilydd yn aml iawn ond mae pob un yn creu argraff wahanol yn y meddwl o ran eu hystyron, eu harwyddocâd a'u cyd-destun hanesyddol - argraff nad ydyw'n amlwg ar unwaith. O'r herwydd gallent ddylanwadu ar ddealltwriaeth pobl o ddulliau dysgu. Mae darparwyr yn defnyddio'r termau hyn i'w helpu i gyfathrebu'r gwahanol gyfleoedd i ddysgu y maent yn eu datblygu. Ond, gallai'r ffaith fod y termau hyn yn cael eu defnyddio'n wahanol gan wahanol bobl arwain at gamddealltwriaeth a gallai awgrymu i rai myfyrwyr eu bod yn disgrifio cyfleoedd llai dymunol.

Nodwch fod y goblygiadau ieithyddol sy'n derbyn sylw yn yr adran hon wedi'u seilio ar yr hyn a ganfuwyd mewn dogfennau sydd wedi'u hysgrifennu yn y Saesneg felly nid ydynt bob amser yr un mor berthnasol, neu nid ydynt yn berthnasol yn yr un ffordd, mewn cyd-destun cyfrwng Cymraeg.

### Dulliau dysgu ar-lein, rhithwir neu ddigidol?

Mae'r term *ar-lein* yn gweithio'n dda fel term trosfwaol am fod pobl yn ei ddefnyddio fel term cyffredin y tu allan i sector addysg uwch y DU hefyd; mae'n rhoi ffocws ar gysylltedd y dulliau dysgu, addysgu a chefnogi y gallai darparwr eu defnyddio. Ond, gallai'r term *ar-lein* hefyd roi'r argraff bod yr holl ddysgu wedi'i seilio ar y we, gan olygu bod rhaid i fyfyrwyr ddefnyddio dyfais sydd wedi'i chysylltu â'r we i gael gafael ar unrhyw rai o'r gweithgareddau dysgu, addysgu a chefnogi sydd ar gael. Mae awgrym yma hefyd bod modd ystyried rhywbeth *ar-lein* fel rhywbeth sy'n digwydd ymhell o safle'r darparwr, lle mae'r myfyrwyr o bosib wedi'u gwahanu oddi wrth y dysgu yn yr ystafell ddosbarth ar y safle. Rydyn ni hefyd yn cysylltu'r term *ar-lein* gyda chyfleustra a gyda phrofiad gwahanol i hwnnw a fyddai ar un cyfnod wedi bod yn un corfforol lle byddem wedi mynychu rhywle arbennig (er enghraifft, siopa ar-lein). Oherwydd yr argraffiadau hyn, gallai'r opsiwn *ar-lein* ymddangos yn un llai dymunol i'r myfyrwyr hynny sydd eisiau mwy o ryngweithio cymdeithasol neu sydd eisiau'r profiad o wneud eu gweithgareddau dysgu, addysgu a chefnogi yng nghwmni pobl eraill. Mae'n bosibl hefyd y bydd *dysgu ar-lein* yn ymddangos yn opsiwn llai dymunol i'r myfyrwyr hynny sydd heb gysylltiad dibynadwy â'r we neu nad oes dyfeisiau addas ar gael ganddynt i ddysgu arnynt.

Mae *rhithwir* yn derm arall a ddefnyddir mewn addysg uwch, er nad mor eang, ac unwaith eto defnyddir hwn gan bobl y tu allan i'r sector. Nid yw'r term hwn yn wynebu'r un problemau â'r term *ar-lein* am nad oes cyswllt annatod rhwng hwn â'r we ac felly nid yw'n rhoi'r un argraff i bobl ei fod yn cael ei ddarparu ymhell oddi wrth safle'r darparwr. Yn aml iawn, nid yw *rhithwir* yn

dynodi cyfleustra; yn hytrach, mae'n awgrymu y bydd y lefel o ymgysylltu sy'n ofynnol o'i gymharu â'r profiad ffisegol yn debyg ond yn wahanol. Ond, y gwahaniaeth hwn i'r profiad ffisegol go iawn yw un o oblygiadau ei ddefnydd. Gallai rhai pobl deimlo bod *rhithwir* yn gysylltiedig â phrofiadau sy'n artiffisial, ffug, neu ddim yn 'real'. Felly, bydd rhai darparwyr yn cyfeirio at rith-ddysgu dim ond mewn cyd-destun lle defnyddir technoleg realiti rhithwir, er mwyn osgoi rhoi'r argraff nad yw eu cynnig yn ddilys. O ganlyniad i'r ddelwedd hon, gallai'r myfyrwyr hynny sydd eisiau profiad addysg uwch 'real' go iawn ystyried cynigion *rhithwir* yn opsiwn llai dymunol.

Mae'r term *digidol* yn derm trosfwaol sy'n cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn y sector addysg uwch. Mae wedi'i gysylltu'n annatod â storio data ond, fel term, mae wedi datblygu i olygu 'yn cynnwys neu'n ymwneud â defnyddio technoleg gyfrifiadurol', a gwelir hynny ar waith yn y ffordd y defnyddir y termau *sgiliau digidol* neu *lythrennedd digidol*. O'i gymharu â'r term *analog*, mae'n creu delwedd bositif ym meddyliau rhai pobl am ei fod yn awgrymu bod pethau wedi datblygu o'i gymharu â'r ffyrdd mwy traddodiadol o wneud pethau. Derbynnir yn gyffredinol bod modd cyrraedd gwybodaeth *ddigidol* heb i chi fod ar-lein a bod modd gweithio gyda'r wybodaeth ddigidol hon mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd (ar y safle neu oddi arno, drwy fynychu neu o bell). Mae pobl yn dal i gysylltu ffyrdd *digidol* o weithio gyda storio a defnyddio gwybodaeth, felly nid yw'n derm a allai roi argraff arbennig y gellid wedyn ei ystyried yn annilys. Mae'n ymddangos, felly, nad oes gan y term *digidol* yr un arwyddocâd â'r termau *ar-lein* neu *rithwir* a'i fod, yn hytrach, yn ymddangos yn derm mwy niwtral. Felly, mae defnyddio'r term hwn yn gyfle i'r darparwr gyfleu ystyr y term ei hun wrth gwrs ond hefyd gyfleu ystyr ehangach y term, sef sut y byddai dull *dysgu digidol* yn ymddangos i'r myfyrwyr.

## Dulliau dysgu cyfunol neu hybrid?

Defnyddir y termau *dysgu cyfunol* a *dysgu hybrid* yn gyfnewidiol gan ddarparwyr wrth ddisgrifio gwahanol fodelau darparu sy'n defnyddio cymysgedd o ddulliau i ymgysylltu myfyrwyr â dysgu. Defnyddir y term *cyfunol* yn amlach na *hybrid* ac fe'i defnyddir mewn sawl ffordd wahanol i ddisgrifio gwahanol fodelau darparu a/neu wahanol fathau o ymgysylltiad myfyrwyr. Nid yw'r term *hybrid* mor flaenllaw yn sector addysg uwch y DU. Mae darparwyr yn defnyddio'r ddau derm i ddisgrifio ymgysylltiad myfyrwyr â dysgu sy'n digwydd yn rhannol mewn amgylchedd digidol (naill ai ar y safle neu o bell) ac yn rhannol wyneb yn wyneb ar y safle.

Gall y gymhareb rhwng y gwahanol fathau o ymgysylltiad amrywio'n sylweddol o raglen i raglen a gall y term olygu bod cymysgedd o ddulliau ar waith mewn modiwlau unigol neu yn y rhaglen gyfan. Ond, am fod y term *cyfunol* wedi bod yn fwy blaenllaw'n hanesyddol, mae hwn wedi'i gysylltu â mwy o amrywiaeth o fodelau darparu. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio'r term *cyfunol*, yn arbennig yn fewnol, fel term generig am ddarpariaeth sy'n cynnwys unrhyw elfen o ddulliau dysgu digidol. Mae'r term *cyfunol* hefyd yn gysylltiedig â modelau darparu sy'n gofyn i fyfyrwyr gyfranogi mewn gweithgareddau dysgu wedi'u hamserlennu ar y safle ar draws y flwyddyn academaidd, yn ychwanegol at wneud gweithgareddau dysgu digidol rhwng yr amseroedd hyn. Defnyddir y term hwn hefyd os nad oes gofyniad i fyfyrwyr fod yn bresennol ar y safle'n rheolaidd, ond efallai bod opsiynau i fyfyrwyr fynychu os byddent yn dewis gwneud hynny (er enghraifft, ar benwythnosau astudio preswyl).

Er nad yw'r term *dysgu hybrid* mor amlwg, mae rhai darparwyr wedi dechrau ei ddefnyddio i ddisgrifio rhaglenni a luniwyd i roi mwy o ddewis i'r myfyrwyr ynglŷn â sut i ymgysylltu â'u dysgu. Mewn sefyllfa fel hyn, mae'r rhaglenni wedi'u llunio i gael eu darparu ar y safle ac o bell, gan adael i fyfyrwyr symud yn rhwydd rhwng y ddau ddull o ddarparu. Felly, rhoddir rhwydd hynt i fyfyrwyr lunio eu dulliau eu hunain o ymgysylltu â'r rhaglenni *hybrid* hyn, a diffinio faint y maen nhw eisiau ymwneud â'r gweithgareddau ar y safle neu â'r gweithgareddau dysgu digidol. Fodd bynnag, er bod rhai gwahaniaethau rhwng arwyddocâd y ddau derm, nid ydym wedi canfod unrhyw wahaniaeth sylfaenol yn yr hyn y maent yn ei ddisgrifio. Felly, dylai darparwyr bob amser sicrhau bod eglurder mewn unrhyw gyfathrebu a wnânt gyda myfyrwyr wrth ddefnyddio'r

termau *cyfunol* neu *hybrid* i ddisgrifio'r dulliau o ddarparu eu rhaglenni. O ystyried ehangder y gwahanol fodelau y defnyddir y termau hyn i'w disgrifio, bydd angen rhagor o wybodaeth bob amser i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth bosibl am yr hyn y dylai myfyrwyr ei ddisgwyl o'u dysgu.

## Dysgu o bell

Mae'r term *dysgu o bell* yn disgrifio dull darparu sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n digwydd ymhell o safle'r darparwr pan fydd myfyrwyr yn defnyddio dulliau digidol i gyfranogi yn y rhaglen, yn hytrach na gorfod ymweld â'r darparwr.

Mae *dysgu o bell* yn derm a ddefnyddid cyn y tyfiant eang mewn defnyddio dulliau digidol o ddysgu ac roedd yn ymwneud i ddechrau â'r holl gyrsiau a ddarperir drwy ohebiaeth. Mae gwraidd y term hwn yn yr arddull o gyfathrebu a fabwysiadwyd gan fyfyrwyr i ymgysylltu â'r aelodau o staff oedd yn gyfrifol am ddarparu'r rhaglen o bell.

Yn ystod y sefyllfa COVID-19 bresennol, mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i gyfeirio at y rhaglenni hynny sydd wedi dechrau cael eu darparu'n ddigidol.

Mewn cyd-destun cyfrwng Saesneg, defnyddir dau derm yn gyfnewidiol gan ddarparwyr i ddisgrifio gweithgareddau dysgu ac addysgu a wneir o bell. Mae'r gwahaniaethau rhyngddynt wedi'u trafod yn y fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon sydd ar gael hefyd ar wefan QAA.

## Dulliau darparu wyneb yn wyneb, drwy fynychu, ar y campws neu ar y safle?

Wrth sôn am ddulliau darparu rhaglenni hyfforddiant ac addysg, mae'r term *wyneb yn wyneb* wedi bod yn un cyffredin ers amser yn y sector addysg uwch. Mae wedi'i ddefnyddio amlaf i ddisgrifio dull o ddarparu rhaglen ar safle'r darparwr lle mae aelod o'r staff yn darparu'r dysgu a'r addysgu'n uniongyrchol i'r myfyrwyr. Mae ei ystyr wedi'i gysylltu'n annatod ag arddulliau cyfathrebu ac, yn y gorffennol, roedd yn caniatáu gwahaniaethu clir rhwng dulliau o gyfathrebu lle gallai unigolion weld ei gilydd (megis sesiwn diwtora) a dulliau lle doedden nhw ddim (megis sgwrs ar y ffôn). O ystyried hynny, defnyddiwyd y term *wyneb yn wyneb* i ddynodi a oedd cyfathrebu (ac felly ddarpariaeth rhywfaint o'r dysgu a'r addysgu) yn digwydd *drwy fynychu* neu a ydoedd yn digwydd o bell. Fodd bynnag, am fod fideo-gynadledda mor hygyrch, gall y cyfathrebu *wyneb yn wyneb* ddigwydd yn awr pan mae unigolion yn gorfforol agos neu'n cyfathrebu o bell, o ystyried bod yr unigolion yn gallu gweld ei gilydd hyd yn oed os ydyn nhw bellter ar wahân.

Mae'r term *wyneb yn wyneb* yn derm a ddefnyddir yn ehangach na'r term *drwy fynychu* wrth sôn am dderbyn rhaglenni hyfforddiant ac addysg, ond mae darparwyr yn defnyddio'r term *drwy fynychu* i amlinellu sut y bydd disgwyl i'r myfyrwyr ymgysylltu â'u gweithgareddau dysgu ac addysgu. Am fod y term hwn yn disgrifio lleoliad ffisegol yr unigolyn a fydd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, mae'n osgoi unrhyw gamddealltwriaeth bosibl (o ran lle bydd y myfyrwyr a'r staff wedi'u lleoli) a allai godi wrth siarad am ddarpariaeth *wyneb yn wyneb*. Fodd bynnag, yn debyg i'r term *wyneb yn wyneb,* er ei bod hi'n addas defnyddio'r term *drwy fynychu* i ddisgrifio sut mae rhan o raglen yn cael ei ddarparu, nid yw'n cael ei ddefnyddio fel arfer i ddisgrifio dull darparu'r rhaglen gyfan.

Mae'r term *ar y campws* yn un mor ddefnyddiol â'r term *drwy fynychu* am ei fod yn esbonio'n glir ymhle y bydd gweithgareddau dysgu ac addysgu'r rhaglen yn digwydd, yn hytrach na sut y bydd myfyrwyr a staff yn cyfathrebu yn ystod y gweithgareddau hyn. Gellir hefyd ddefnyddio'r term hwn i ddisgrifio sut y bydd rhaglen gyfan yn cael ei darparu. Mae hyn yn golygu bod modd ei ddefnyddio i osgoi camddealltwriaeth pan fydd y staff yn cyfeirio rhannau penodol o'r dysgu a'r addysgu ond nid yw'n cael ei ddarparu ganddyn nhw drwy iddynt fynychu'r sesiwn. Fodd

bynnag, mae'r term *ar y campws* ar ei fwyaf priodol wrth sôn am ddarparwyr sydd â safleoedd darparu ar gampysau. I'r darparwyr hynny sydd heb gampws, neu sydd â safleoedd darparu y tu allan i'w prif gampws, mae *darpariaeth ar y safle* yn derm mwy priodol. Fel term, nid yw hwn yn cael ei gydnabod mor eang â'r lleill, ond o'i ddefnyddio'n briodol, gallai sicrhau bod llai o gamddealltwriaeth wrth roi gwybod i'r myfyrwyr sut y byddent yn derbyn y ddarpariaeth.

## Cadw pellter cymdeithasol neu gorfforol?

Defnyddir yr ymadrodd *cadw pellter cymdeithasol* gan y llywodraethau yn y DU i ddisgrifio'r gofyniad i unigolion gadw pellter diogel er mwyn osgoi dal neu ledu'r Coronafeirws. Er mai *pellter cymdeithasol* yw'r ymadrodd a ddefnyddir amlaf mewn canllawiau cyngor iechyd, mae arwyddocâd y geiriau eu hunain yn effeithio ar ddysgu ac addysgu. Mae dysgu, o leiaf yn rhannol, yn brofiad cymdeithasol a dylai fod yn bosibl o hyd i gydweithredu felly ac i ffurfio rhwydweithiau dysgu cymdeithasol ac anogir y cymdeithasu hwn yn fawr iawn, hyd yn oed os nad yw'r myfyrwyr ar y safle gyda'i gilydd. Felly, gallai defnyddio'r term *pellter cymdeithasol* greu'r canfyddiad bod angen ymbellhau'n lletach na dim ond y gofod ffisegol rhwng dau berson.

Yn yr un modd, mae'r ymadrodd *cadw pellter corfforol* yn disgrifio'r gofyniad i unigolion gadw pellter diogel oddi wrth ei gilydd. Hyd yn hyn, nid yw'r term hwn mor gyffredin â'r term *pellter cymdeithasol* ond mae'n dod yn fwy cyffredin ac yn derbyn mwy o gydnabyddiaeth yn y sector addysg uwch. Yn ogystal, nid yw *cadw pellter corfforol* yn creu yr un argraff â *phellter cymdeithasol* am ei fod yn cyfeirio at y gofod ffisegol yn unig wrth sôn am yr ymbellhau. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw awgrym yn y term hwn bod rhaid i'r staff neu'r myfyrwyr gadw pellter cymdeithasol yn ogystal â phellter corfforol.

Yn y categorïau sydd wedi'u nodi isod, dylech allu gweld sut yr ydym wedi ceisio defnyddio rhai o'r termau hyn mewn ffordd gyson i ddisgrifio'r mathau o brofiadau y gallai myfyriwr eu cael wrth ymgysylltu â gwahanol fathau o ddulliau dysgu digidol.

## Adran 2: Adeiladu tacsonomeg o brofiadau digidol myfyrwyr

Drwy ddiffinio'r termau uchod ac wrth lunio'r rhestr termau, mae'n amlwg nad oes ffordd hawdd ei deall o gymharu gwahanol ddulliau dysgu digidol ar hyn o bryd. Felly, mae'n anochel bod darparwyr wedi cael trafferth sicrhau bod ymgeiswyr yn deall yn glir yr hyn y dylent ei ddisgwyl gan yr addysg ddigidol a gynigir, a sut mae hyn yn cymharu â rhaglenni eraill. Gall hyn gyfyngu ar allu darpar fyfyrwyr i wneud dewisiadau deallus am y rhaglenni yr hoffent wneud cais amdanynt. I geisio helpu i wella'r sefyllfa hon, rydym wedi datblygu categorïau cyffredinol o ddulliau dysgu digidol.

Fel y dangoswyd uchod, mae'r gwaith o gategoreiddio'r dulliau o ddarparu gweithgareddau dysgu ac addysgu digidol yn frith o heriau o ystyried arwyddocâd rhai termau trosfwaol a'r ffaith fod termau eraill yn debyg i'w gilydd. Am fod y darparwyr yn defnyddio'r termau sy'n fwyaf priodol i'w cyd-destun, eu carfannau myfyrwyr a'u rhaglenni nhw, teimlwyd y byddai unrhyw system gategoreiddio sy'n canolbwyntio ar ddulliau darparu, yn anochel, yn addas i gyfran o'r darparwyr yn unig. Felly, mae ffocws y system gategoreiddio hon ar y ffordd y mae darparwyr yn bwriadu i'w myfyrwyr ymgysylltu â gweithgareddau dysgu digidol, yn hytrach na cheisio categoreiddio'r dulliau eu hunain. Wrth gategoreiddio'r mathau o ymgysylltiad y gall myfyrwyr ei ddisgwyl, rydym yn gobeithio y bydd darparwyr mewn gwell sefyllfa i helpu myfyrwyr i ddeall y gwahanol ddulliau'n glir a'u cymharu.

Nid yw'r system gategoreiddio hon yn gwneud unrhyw feirniadaeth am ansawdd y profiad dysgu y bydd myfyrwyr yn ei gael. Yn hytrach, mae'n ceisio categoreiddio a disgrifio gwahanol brofiadau'r myfyrwyr yn dibynnu ar fath a maint unrhyw ymgysylltiad digidol. Wrth ffurfio'r categorïau hyn, rydym wedi cymryd i ystyriaeth ymgysylltiad y myfyrwyr ag adnoddau digidol, lleoliad ffisegol, technoleg, meddalwedd, a gwasanaethau cymorth ac hefyd sut maen nhw'n ymwneud â'i gilydd. Rydym yn derbyn bod sbectrwm o brofiadau mewn gwirionedd rhwng y myfyrwyr hynny sydd heb gael unrhyw brofiad, neu fawr brofiad, o ddysgu ac addysgu digidol a'r myfyrwyr hynny sy'n cael eu trochi'n llawn yn y maes lle darperir yr holl ddysgu ac addysgu'n ddigidol. Derbyniwn nad yw'r profiadau i gyd yn rhannu'n dwt i'r pum categori hyn.

### Ymgysylltiad/profiad digidol goddefol

Os nad oes unrhyw agwedd o'r gweithgareddau dysgu ac addysgu sydd ar gael, neu fawr ddim ohonynt, wedi'u llunio i gael eu darparu'n ddigidol. Ni fydd y myfyrwyr yn cael profiad o unrhyw agwedd ddigidol o'r rhaglen heblaw bod rheswm iddyn nhw chwilio amdanynt ac ymwneud â nhw ar eu telerau eu hunain.

| | |
|---|---|
| Cynllun y rhaglenni | Llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu i gael eu darparu a'u cyflawni ar safle'r darparwr, gan bwysleisio agweddau personol a ffisegol y dysgu. Gallai'r gweithgareddau dysgu ac addysgu ddefnyddio offer cyflwyno digidol. Llunnir asesiadau i gael eu cwblhau a'u cyflwyno mewn fformat analog, er bod caniatâd i gyflwyno'n ddigidol rai darnau o waith a asesir. |
| Yr adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwyr | Ni fydd unrhyw adnoddau dysgu neu addysgu digidol, neu fawr ddim ohonynt, yn cael eu cynnig i'r myfyrwyr, a bydd y mwyafrif o adnoddau wedi'u darparu mewn fformat analog ar y safle. Efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth am y rhaglenni, megis llawlyfrau neu reoliadau, ar gael yn ddigidol. |
| Y dull dysgu ac addysgu a ddefnyddir | Ymgysylltiad personol ar y safle. Bydd ffocws ar ddarparu darlithoedd a sesiynau tiwtora ar y safle a fydd, o bosibl, yn cynnwys hyfforddiant sgiliau, neu sesiynau eraill mewn labordai, gweithdai, stiwdios neu fannau perfformio. |

| | |
|---|---|
| Y dechnoleg a ddefnyddir i hwyluso'r dulliau darparu | Mae hon wedi'i chyfyngu fel arfer i wefan y darparwr, offer cyflwyno digidol (megis PowerPoint) a meddalwedd cyfathrebu sydd ar gael yn hawdd (er enghraifft, Zoom neu Teams). Efallai y bydd rhith-amgylchedd dysgu ar gael ond bydd hwn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel ystorfa o ddogfennau rhaglenni, sy'n caniatáu i'r myfyrwyr weld y cynnwys os byddent yn dewis gwneud hynny. |
| Y gefnogaeth y mae'r darparwr yn ei chynnig i'w fyfyrwyr | Yn bennaf, cynigir cymorth i'r myfyrwyr ar y safle. Efallai y bydd myfyrwyr yn gallu sicrhau rhywfaint o gymorth yn ddigidol drwy'r e-bost, ar y ffôn neu drwy fideo-gynadledda. |
| Personoli | Mae cyfle cyfyngedig i bersonoli'r ymgysylltiad â'r dysgu a'r addysgu. Bydd yr un adnoddau ar gael i bob myfyriwr, a llunnir yr addysgu fel bod modd i garfan o fyfyrwyr ei brofi ar yr un pryd. |

## Ymgysylltiad/profiad digidol cefnogol

Ategir rhai o'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a ddatblygwyd gan y darparwr gan ddeunyddiau cymorth digidol. Yn bennaf, bydd y myfyrwyr yn cyfranogi yn y gweithgareddau hyn ar safle'r darparwr, ond gallent ddewis defnyddio adnoddau dysgu digidol i ategu eu dysgu er nad yw hynny'n rhan ofynnol o'r rhaglen.

| | |
|---|---|
| Cynllun y rhaglenni | Llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu i gael eu darparu a'u cyflawni ar y safle, gyda chymorth adnoddau digidol ategol. Llunnir asesiadau i gael eu cwblhau a'u cyflwyno mewn fformat(au) analog, er bod caniatâd i gyflwyno rhai darnau o waith a asesir yn ddigidol. |
| Yr adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwyr | Cynigir adnoddau dysgu digidol i'r myfyrwyr i ategu adnoddau eraill sydd ar gael ar y safle. Yn aml iawn, bydd y deunyddiau dysgu ac addysgu, megis nodiadau darlithoedd, ar gael yn ddigidol, a hynny fel arfer ar ôl i'r gweithgareddau ddigwydd ar y safle. Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth am y rhaglenni, megis llawlyfrau neu reoliadau, ar gael yn ddigidol. |
| Y dull dysgu ac addysgu a ddefnyddir | Bydd pwyslais ar ddarparu darlithoedd a sesiynau tiwtora ar y safle a fydd, o bosibl, yn cynnwys hyfforddiant sgiliau, neu sesiynau eraill mewn labordai, gweithdai, stiwdios neu fannau perfformio. Efallai y ychwanegir at y rhain gyda sesiynau fideo neu drwy ddefnyddio technoleg cipio darlithoedd er mwyn galluogi i'r myfyrwyr gyfranogi yn y dysgu'n ddigidol. |
| Y dechnoleg a ddefnyddir i hwyluso'r dulliau darparu | Disgwylir y bydd offer cyflwyno digidol yn cael eu defnyddio yn ogystal â meddalwedd cyfathrebu sydd ar gael yn hawdd. Bydd rhith-amgylchedd dysgu ar gael a bydd mwy o ymgysylltu â staff a rhwng myfyrwyr gan ddefnyddio naill ai'r rhith-amgylchedd dysgu neu blatfformau eraill. Bydd hefyd ystorfa o ddogfennau ategu rhaglenni ac adnoddau digidol eraill a luniwyd i gefnogi gweithgareddau dysgu ac addysgu. |
| Y gefnogaeth y mae'r darparwr yn ei chynnig i'w fyfyrwyr | Mae'n debyg y bydd cymorth ar gael i'r myfyrwyr ar y safle ond bydd hwn wedi'i ategu gan ddulliau cefnogi digidol. Efallai y bydd myfyrwyr yn gallu sicrhau cymorth tebyg yn ddigidol drwy'r e-bost, ar y ffôn neu drwy fideo-gynadledda. |

| | |
|---|---|
| Personoli | Efallai y bydd rhai cyfleoedd i bersonoli'r ymgysylltiad gyda'r dysgu a'r addysgu. Yn aml iawn gwneir hynny drwy ddefnyddio deunyddiau cymorth. Efallai y bydd yr un deunyddiau cymorth digidol ar gael i bob myfyriwr, ond bydd cyfle iddynt ddewis sut y byddant yn eu defnyddio, ac i ba raddau. Mae'n debyg y llunnir yr addysgu fel bod modd i garfan o fyfyrwyr ei brofi ar yr un pryd. |

## Ymgysylltiad/profiad digidol estynedig

Llunnir y gweithgareddau dysgu ac addysgu a ddatblygwyd gan y darparwr i gynnwys agweddau o ddysgu digidol fel elfen graidd yn y gweithgareddau, er mwyn cyfoethogi profiad y myfyrwyr o ddysgu ar y safle. Bydd gofyn i'r myfyrwyr ddefnyddio agweddau digidol o ddysgu ond cânt ddewis i ba raddau y gwnânt hynny, yn dibynnu ar faes a math y gweithgaredd dysgu digidol.

| | |
|---|---|
| Cynllun y rhaglenni | Llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu i gael eu darparu a'u cyflawni ar y safle, ac mae gweithgareddau digidol wedi'u cynnwys yn rhannau integrol o'r gweithgareddau hyn. Llunnir asesiadau i gael eu cwblhau a'u cyflwyno naill ai mewn fformat digidol neu mewn fformat analog, a llunnir rhai dulliau marcio digidol. |
| Yr adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwyr | Cynigir y rhan fwyaf o'r adnoddau dysgu neu addysgu digidol i'r myfyrwyr, a dim ond rhai ohonynt a fydd wedi'u llunio i'w cynnig ar y safle'n unig. Bydd y rhan fwyaf o'r deunyddiau dysgu ac addysgu, megis nodiadau darlithoedd, ar gael yn ddigidol. Bydd yr holl wybodaeth am y rhaglenni, megis llawlyfrau neu reoliadau, ar gael yn ddigidol. |
| Y dull dysgu ac addysgu a ddefnyddir | Er y bydd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau dysgu ac addysgu'n digwydd ar y safle, bydd gan rai ohonynt elfennau digidol neu byddent wedi'u darparu'n gwbl ddigidol. Ar y safle fel arfer y darperir unrhyw hyfforddiant sgiliau, neu unrhyw sesiynau eraill mewn labordai, gweithdai, stiwdios neu fannau perfformio, a darperir darlithoedd, sesiynau tiwtora a seminarau drwy gyfuniad o ddulliau digidol ac ar-lein. Mae'n debyg y defnyddir technoleg cipio darlithoedd er mwyn galluogi i'r myfyrwyr benderfynu sut ac ymhle y maen nhw eisiau gwneud eu gweithgareddau dysgu ac addysgu. |
| Y dechnoleg a ddefnyddir i hwyluso'r dulliau darparu | Mae'n debyg y defnyddir offer cyflwyno digidol datblygedig (sy'n gofyn am gyfranogaeth y myfyrwyr) yn ogystal â meddalwedd parod neu bwrpasol ar gyfer cyfathrebu rhwng staff neu fyfyrwyr. Bydd rhith-amgylchedd dysgu wedi'i lunio i hwyluso gweithgareddau dysgu ac addysgu digidol, a bydd hwn mae'n debyg yn cynnal y meddalwedd sy'n galluogi i'r myfyrwyr ymgysylltu gyda'r staff a gyda'i gilydd. Er y bydd ystorfa o wybodaeth ddigidol ar gael, bydd y myfyrwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'r offer digidol sydd ar gael wrth iddynt gyfranogi yn y rhan fwyaf o'u gweithgareddau dysgu ac addysgu. Bydd y platfformau a ddefnyddir i gefnogi'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfle i bersonoli profiad y myfyriwr. Lle bo'n briodol, bydd platfformau a meddalwedd arbenigol ar gael i'r myfyrwyr i'w galluogi i ymgysylltu â'u dysgu ymhellach. |

| | |
|---|---|
| Y gefnogaeth y mae'r darparwr yn ei chynnig i'w fyfyrwyr | Mae'n debyg y bydd cymorth ar gael i'r myfyrwyr ar y safle, ond efallai y bydd cymorth tebyg ar gael yn ddigidol. Efallai y cynigir cymorth digidol i'r myfyrwyr ar ôl ymdrin â'r mater i gychwyn ar y safle. Efallai y cynigir cymorth digidol os na fydd unrhyw gymorth ar gael ar y safle. |
| Personoli | Efallai y cynigir nifer o ffyrdd i'r myfyrwyr bersonoli eu hymgysylltiad gyda'r dysgu a'r addysgu. Bydd yr un adnoddau digidol ar gael i bob myfyriwr, ond efallai y bydd cyfle iddynt ddewis sut y byddant am eu defnyddio, ac i ba raddau. Yn bennaf, llunnir yr addysgu fel bod modd i garfan o fyfyrwyr ei brofi ar yr un pryd, ond llunnir y gweithgareddau i alluogi cyfranogaeth ar wahanol adegau. |

## Ymgysylltiad/profiad digidol rhyngweithiol

Llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu digidol gan y darparwr fel y brif ffordd y bydd y myfyrwyr yn ymgysylltu gyda'r rhaglen a gyda'i gilydd. Bydd gofyn i'r myfyrwyr gymryd rhan weithredol yn y gweithgareddau digidol hyn a bydd ganddynt lai o ddewis ynghylch yr ymgysylltiad hwn. Efallai y bydd rhai gweithgareddau dysgu ac addysgu ar gael ar safle'r darparwr, ond ni fydd hon yn rhan ofynnol o'r rhaglen.

| | |
|---|---|
| Cynllun y rhaglenni | Mae'n debygol y llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu i ddefnyddio dulliau darparu digidol ochr yn ochr â dulliau darparu ar y safle, gan alluogi trosglwyddiad rhwydd rhwng y ddau ddull darparu. Mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o'r adnoddau dysgu ac addysgu a gynigir i'r myfyrwyr ar ffurf ddigidol gyda rhywfaint ar gael ar y safle. Gellid cefnogi hyn gyda rhywfaint o bresenoldeb opsiynol ar y safle. |
| Yr adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwyr | Cynigir adnoddau dysgu neu addysgu analog i'r myfyrwyr dim ond er mwyn ategu adnoddau digidol eraill. Dim ond yn ddigidol y bydd y deunyddiau dysgu ac addysgu ar gael - deunyddiau megis nodiadau darlithoedd, a hynny fel arfer ar ôl i'r gweithgareddau digidol ddigwydd. Dim ond yn ddigidol y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth am y rhaglenni ar gael - gwybodaeth megis llawlyfrau neu reoliadau. |
| Y dull dysgu ac addysgu a ddefnyddir | Mae'n debyg y darperir y dysgu a'r addysgu bron yn gwbl ddigidol. Bydd pwyslais ar ddarparu darlithoedd a sesiynau tiwtora'n ddigidol, a darperir hyfforddiant sgiliau drwy fideo-gynadledda. Efallai y bydd nifer gyfyngedig o sesiynau ar gael mewn labordai, gweithdai, stiwdios neu fannau perfformio ar safle'r darparwr. Efallai y ychwanegir at y rhain gyda gweithgareddau eraill, sy'n llai ffurfiol, ar y safle er mwyn galluogi i'r myfyrwyr ymgysylltu wyneb yn wyneb â'u carfan neu gyda'r staff. |
| Y dechnoleg a ddefnyddir i hwyluso'r dulliau darparu | Defnydd llwyr integredig o rith-amgylchedd dysgu a fydd yn ffurfio prif fan ymgysylltu'r myfyrwyr gyda'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a gyda gweddill eu carfan. Bydd platfformau a meddalwedd arbenigol ar gael i'r myfyrwyr i'w galluogi i ymgysylltu â'u dysgu ymhellach, os byddent eisiau gwneud hynny. |
| Y gefnogaeth y mae'r darparwr yn ei chynnig i'w fyfyrwyr | Yn bennaf, cynigir cymorth i'r myfyrwyr yn ddigidol. Efallai y bydd myfyrwyr yn gallu sicrhau rhywfaint o gymorth ar y safle, ond dim ond drwy apwyntiad y bydd hynny fel arfer. |

| | |
|---|---|
| Personoli | Mae llawer o bersonoli'n digwydd ac mae rhan o ymgysylltiad pob myfyriwr gyda'r dysgu a'r addysgu wedi'i lunio i ateb eu disgwyliadau. Er y bydd yr holl wybodaeth ac adnoddau digidol ar gael i'r myfyrwyr, ni fydd pob un ohonynt yn defnyddio'r adnoddau hynny yn yr un ffordd, neu ar yr un pryd. Llunnir yr addysgu fel bod modd i garfan o fyfyrwyr ei brofi ar wahanol adegau, ond bydd cyfle iddynt gyfranogi mewn rhai elfennau ar yr un pryd. |

## Addysg drochi drwy ymgysylltiad/brofiad digidol

Llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu digidol gan y darparwr fel yr unig ffordd i'r myfyrwyr ymgysylltu gyda'r rhaglen a gyda'i gilydd. Bydd gofyn i'r myfyrwyr gymryd rhan yn yr holl weithgareddau digidol, ac ni fydd unrhyw gyfleoedd dysgu ac addysgu ar gael iddynt ar safle'r darparwr.

| | |
|---|---|
| Cynllun y rhaglenni | Llunnir gweithgareddau dysgu ac addysgu i gael eu cyflawni'n ddigidol, gan bwysleisio'r profiad personol o ddysgu. Dim ond yn ddigidol y bydd y gweithgareddau dysgu ac addysgu ar gael, a disgwylir i'r myfyrwyr ddefnyddio adnoddau digidol er mwyn ategu'r gweithgareddau hyn. Llunnir asesiadau i gael eu cwblhau, eu cyflwyno a'u marcio'n ddigidol. |
| Yr adnoddau sydd ar gael i'r myfyrwyr | Ni fydd unrhyw adnoddau dysgu neu addysgu, neu fawr ddim ohonynt, yn cael eu cynnig i'r myfyrwyr ar y safle, a bydd y mwyafrif o'r adnoddau wedi'u darparu mewn fformat digidol. Efallai y bydd rhywfaint o'r wybodaeth am y rhaglenni, megis llawlyfrau neu reoliadau, ar gael mewn fformat analog ar y safle. |
| Y dull dysgu ac addysgu a ddefnyddir | Ymgysylltiad digidol. Bydd ffocws ar ddarparu darlithoedd a sesiynau tiwtora'n ddigidol a fydd, o bosibl, yn cynnwys hyfforddiant sgiliau digidol (o dan oruchwyliaeth arbenigwyr y tu allan i'r darparwr) neu sesiynau eraill mewn labordai, gweithdai, stiwdios neu fannau perfformio, a ddarperir drwy fideo-gynadledda. |
| Y dechnoleg a ddefnyddir i hwyluso'r dulliau darparu | Mae'n debyg mai defnydd llwyr integredig o rith-amgylchedd dysgu fydd unig fan ymgysylltu'r myfyrwyr gyda'r gweithgareddau dysgu ac addysgu a gyda gweddill eu carfan. Bydd platfformau a meddalwedd arbenigol ar gael i'r myfyrwyr i'w galluogi i ymgysylltu â'u dysgu ymhellach. |
| Y gefnogaeth sydd ar gael i'r myfyrwyr | Mae'n debyg y bydd cymorth ar gael i'r myfyrwyr yn ddigidol drwy'r rhith-amgylchedd dysgu, drwy'r e-bost, ar y ffôn neu drwy fideo-gynadledda neu sgwrs ar-lein. Efallai y bydd myfyrwyr yn gallu gofyn am gael rhywfaint o gymorth ar y safle ond, o bosibl, nid gan staff y darparwr nac ar safle'r darparwr. |
| Personoli | Llunnir y profiad dysgu cyfan i gael ei bersonoli gan y myfyriwr. Bydd y myfyrwyr yn penderfynu sut y maent am gyfranogi ym mhob elfen o'r dysgu a'r addysgu er mwyn ateb eu disgwyliadau. Er y bydd yr holl adnoddau digidol ar gael i'r myfyrwyr, ni fydd pob un ohonynt yn defnyddio'r adnoddau hynny yn yr un ffordd. Llunnir yr addysgu fel bod modd i garfan o fyfyrwyr ei brofi ar wahanol adegau, a byddent yn dysgu ar eu cyflymder eu hunain. |

## Adran 3: Adeiladu rhestr termau

Ochr yn ochr â'r drafodaeth am dermau trosfwaol a darparu strwythur ar gyfer categoreiddio profiadau dysgu digidol, rydym wedi tynnu sylw at nifer o dermau cysylltiedig a ddefnyddir wrth gyfathrebu pa elfennau o ddulliau dysgu digidol sy'n cael eu defnyddio. Rydym wedi nodi'r rhain isod, ochr yn ochr â diffiniadau yr ydym wedi'u datblygu drwy ddeall sut y cânt eu defnyddio yn y sector ar hyn o bryd. Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys popeth ond mae'n dangos yr amrywiaeth yn y termau a ddefnyddir ac yn tynnu sylw at yr heriau y gall y myfyrwyr eu hwynebu wrth geisio deall yn glir beth mae eu darparwr yn ei gynnig iddynt.

| Term | Defnydd/diffiniad |
|---|---|
| Addysgeg yn gyntaf | Dull o ddatblygu dulliau dysgu digidol sy'n rhoi'r lle blaenaf i'r dulliau addysgol sydd i gael eu defnyddio wrth ddarparu'r rhaglen, a chânt eu hystyried fel prif yrrwr yn y broses o ddatblygu a chynllunio'r rhaglen. |
| Amcanion dysgu digidol | Unedau dysgu modiwlaidd neu ar wahân a luniwyd i'w darparu'n ddigidol. |
| Arolygu digidol | Term a ddefnyddir i ddisgrifio dull o oruchwylio arholiadau digidol. Gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial (er enghraifft, meddalwedd adnabod llais neu wynebau) neu drwy ddefnyddio staff i arolygu arholiadau drwy gyswllt fideo amser real. Gall hyn gwmpasu'r term *arolygu ar-lein*. |
| Asesiad ar-lein | Asesiadau a weithredir gan ddefnyddio cyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron neu lechi sydd wedi'u cysylltu â'r we. Fel arfer, mae'r asesiad yn cael ei ddarparu a'i farcio gan ddefnyddio algorithm sy'n rhan o'r meddalwedd asesu a redir ar weinydd pell (neu system arall). |
| Asesiad cyfrifiadurol | Asesiadau a weithredir gan ddefnyddio cyfrifiaduron bwrdd gwaith, gliniaduron, llechi neu ddyfeisiau symudol. Fel arfer, mae'r asesiad yn cael ei ddarparu a'i farcio gan ddefnyddio algorithm sy'n rhan o'r meddalwedd asesu sydd ar y ddyfais. Gall y term hwn hefyd gwmpasu dulliau asesu awtomatig ar-lein. |
| Asesiad digidol | Gweithgareddau asesu lle mae myfyrwyr yn cynhyrchu, yn cyflwyno neu'n cwblhau gwaith yn ddigidol. Mae'r staff yn adolygu'r gwaith hwn ac yna'n ei asesu gan ddefnyddio naill ai ddulliau digidol neu ddulliau analog. Mae enghreifftiau'n cynnwys arholiadau digidol, meddalwedd canfod llên-ladrad, efelychiadau realiti rhithwir, perfformiadau fideo neu bortffolios digidol. |
| Astudio annibynnol (dan arweiniad) | Gweithgareddau astudio sy'n digwydd y tu allan i ddarlithoedd, seminarau a gweithgareddau wyneb yn wyneb eraill gyda'r athrawon/darlithwyr. Mae'r rhain fel arfer yn gofyn i'r myfyriwr wneud gwaith darllen ac/neu ymchwil heb gael eu tywys gan aelod o'r staff addysgu. |

| | |
|---|---|
| Bwrdd trafod | Gofod neu blatfform cyfathrebu digidol mwy ffurfiol lle gall y myfyrwyr (a'r staff) drafod a rhannu elfennau o'u rhaglen. Efallai y bydd y bwrdd yn un penodol i fodiwl/raglen neu i gymuned o fyfyrwyr. Mae gan fyrddau trafod strwythur tynn fel arfer mewn cysylltiad â phwnc arbennig, a gellir cadw llygad manwl arnynt i sicrhau bod y trafodaethau'n briodol i'r pwnc hwnnw. Hefyd, gwelwch *fforwm trafod*. |
| Cipio darlith | Pan fydd darlith fyw'n cael ei recordio a'i llwytho i fyny fel podlediad neu fideo digidol i fyfyrwyr ei gweld, naill ai mewn amser real neu wedi i'r ddarlith ddod i ben. |
| Curadu cynnwys | Dethol, cydosod, categoreiddio a rhoi sylwadau am wybodaeth ddigidol at ddiben arbennig. |
| Cyrsiau Ar-lein Enfawr Agored (CAEA, neu MOOC) | Cyrsiau digidol byr y mae'r myfyrwyr yn eu cwblhau'n ddigidol am nad oes gofyniad iddynt fod yn bresennol ar safle'r darparwr. Mae'r rhain fel arfer yn agored i gynulleidfa eang ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r myfyrwyr hynny sydd wedi'u cofrestru â sefydliad yn barod. Er eu bod wedi'u seilio'n aml iawn ar ddarparu'r dysgu a'r addysgu yn rhan o raglen gradd, nid ydynt o anghenraid yn rhannau cyfansawdd o raglen fwy ac yn aml, o'r herwydd, nid yw'r myfyrwyr hynny sy'n cwblhau'r cyrsiau byr hyn yn derbyn credyd academaidd. Fodd bynnag, mae'n bosib y gallai rhai myfyrwyr, pan fyddent yn cwblhau eu cwrs byr yn llwyddiannus, dderbyn cynnig i gael lle gyda safle uwch ar un o raglenni'r darparwr sy'n cynnig y cwrs CAEA ac mae hwn yn cario credyd academaidd. |
| Dod â'ch dyfais eich hun | Term am sefyllfa lle mae'r myfyrwyr yn defnyddio eu dyfeisiau eu hunain i gyrchu adnoddau digidol i gefnogi gweithgareddau dysgu. |
| Dysgu anghydamserol | Dysgu nad yw'n digwydd yn yr un lle neu ar yr un pryd i'r garfan gyfan. Gall myfyrwyr ddefnyddio adnoddau a chyfathrebu unrhyw bryd ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i gyrchu'r dysgu hwn ar unrhyw adeg benodol. Mae'n galluogi i'r myfyrwyr ddysgu ar eu cyflymder eu hunain yn eu hamser eu hunain. |
| Dysgu all-lein | Mae dysgu all-lein yn digwydd pan fydd myfyrwyr sy'n astudio ar raglen ddigidol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu nad ydynt yn cynnwys ymgysylltu digidol, er enghraifft, myfyriwr yn cynhyrchu mathau annigidol o waith creadigol. |
| Dysgu cydamserol | Dyma'r broses o ddysgu lle mae'r cyfranogwyr i gyd yn dilyn y deunydd mewn amser real ond nid o anghenraid yn yr un lle (er enghraifft, efallai y bydd rhai myfyrwyr yn cyfranogi ar y safle, tra bydd eraill yn cyfranogi o bell, a'r ddau'n digwydd ar yr un pryd). |
| Dysgu cymdeithasol | Gellir defnyddio'r term 'dysgu cymdeithasol' i ddisgrifio cyfranogaeth mewn byrddau neu fforymau trafod, yn ogystal ag unrhyw weithgareddau gwaith grŵp eraill sy'n digwydd yn ddigidol, lle mae myfyrwyr yn trafod â'i gilydd ac yn dysgu oddi wrth ei gilydd. |

| | |
|---|---|
| Dysgu dan arweiniad | Pan fydd myfyriwr yn cael ei ddysgu, ei oruchwylio neu ei gyfarwyddo gan aseswr, tiwtor neu berson arall sy'n hwyluso'r dysgu a'r datblygiad. Mae dysgu dan arweiniad yn digwydd naill ai ar safle'r darparwr neu o bell drwy ddefnyddio dulliau digidol. |
| Dysgu digidol cydweithredol | Dull addysgol o ddysgu lle mae grwpiau o ddysgwyr yn cydweithio, gan ddefnyddio dulliau digidol, i gwblhau tasg. |
| Dysgu gwrthdro | Dull addysgol yw hwn sy'n rhoi cyfarwyddyd unigol manwl i fyfyrwyr unigol gan roi'r cyfrifoldeb arnyn nhw i ddefnyddio adnoddau digidol i ddod i ddeall y cynnwys, y cysyniadau neu'r damcaniaethau sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r dysgu. Mae hyn yn digwydd y tu allan i ofod ffisegol. Yna gwahoddir y myfyrwyr i mewn i ofod rhithwir neu ffisegol i esbonio a thrafod eu canfyddiadau a chânt eu tywys gan staff addysgu i lenwi unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth ac i ymdrin yn briodol ag unrhyw ymholiadau pellach. Llunnir y dull hwn i 'wrthdroi' dulliau mwy didactig o ddarparu hyfforddiant, sef darlithoedd neu sesiynau tiwtora, a dilyn hynny gyda dull mwy hyblyg o esbonio'r hyn a ddysgwyd ac unrhyw ymholiad pellach. |
| Dysgu gyda chymorth technoleg | Mae'r term trosfwaol *dysgu gyda chymorth technoleg* yn disgrifio'r defnydd a wneir o dechnoleg i gefnogi'r gwaith o ddysgu, addysgu ac asesu ac i gyfoethogi profiad y myfyrwyr. Gall dysgu gyda chymorth technoleg gefnogi gweithgareddau dysgu ac addysgu ar y safle ac o bell. Weithiau defnyddir y term *dysgu gyda chymorth ar-lein* yn gyfystyr â *dysgu gyda chymorth technoleg*; er bod y cyntaf, drwy ddiffiniad, yn derm gyda mwy o ffocws ar y dechnoleg a ddefnyddir i gefnogi'r dysgu tra bo'r ail derm, *dysgu gyda chymorth ar-lein,* yn canolbwyntio ar y cysylltedd a'r defnydd a wneir o adnoddau sy'n defnyddio'r we. |
| Dysgu hyblyg | Defnyddio gwahanol ddulliau o astudio a gwahanol dechnolegau dysgu i alluogi i'r myfyrwyr reoli eu hastudiaethau mewn perthynas â'u hymrwymiadau a'u blaenoriaethau eraill a rhoi rhyddid i ddysgwyr ddewis sut a phryd i ddysgu, er enghraifft, drwy ddarlithoedd digidol neu sesiynau dysgu gyda'r nos. |
| Dysgu symudol | Y defnydd a wneir o ddyfeisiau symudol (er enghraifft, ffonau neu lechi) mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu. Gall y term hwn gwmpasu gweithgareddau dysgu mwy traddodiadol (megis darllen fersiynau digidol o gyfnodolion) neu weithgareddau llai traddodiadol megis cymryd rhan mewn efelychiadau rhithwir. |
| Dysgu wedi'i bersonoli | Mae dysgu wedi'i bersonoli'n ddull addysgol sy'n ceisio teilwra'r dysgu i ateb cryfderau, anghenion, sgiliau a diddordebau'r myfyriwr unigol. Gall y myfyrwyr gael rhywfaint o ddewis yn y ffordd y maen nhw'n dysgu o'i gymharu â'r dull o ddarparu darlithoedd wyneb yn wyneb. |

| | |
|---|---|
| E-bortffolio | Pan ofynnir i fyfyrwyr ddatblygu corff o dystiolaeth neu waith digidol er mwyn dangos eu sgiliau mewn maes arbennig, er enghraifft, gwaith cynllunio gêm neu gyfryngau digidol. Yn debyg i bortffolios ffisegol, gall e-bortffolios gynnwys sawl math gwahanol o dystiolaeth, megis dogfennau, logiau adfyfyriol, lluniau, fideos, gwefannau, blogiau. |
| E-lyfr | Llyfr rhithwir a gyrchwyd yn ddigidol yn hytrach na llyfr ffisegol. Cyrchir hwn yn ddigidol fel arfer drwy lyfrgelloedd a phyrth rhithwir/digidol. |
| Fforwm trafod | Gofod cyfathrebu digidol llai ffurfiol y gellir ei ddefnyddio i gynnwys myfyrwyr mewn trafodaeth ehangach am sawl pwnc neu thema. Yn aml iawn mae fforymau'n llai strwythuredig na byrddau trafod ond mae angen lefel debyg o gymedroli ar y ddau i sicrhau bod y trafodaethau'n briodol.<br>Hefyd, gwelwch *bwrdd trafod*. |
| Gweminar | Gweithgaredd dysgu neu hyfforddi wedi'i seilio ar y we sy'n rhyngweithiol fel arfer, megis gweithdy neu seminar. Cynhelir gweminarau ar yr un pryd gan ddefnyddio meddalwedd fideo-gynadledda, a gyda'r cyfranogwyr yn cymryd rhan yn ddigidol. Gallai gweminarau gael eu recordio a'u darparu fel fideo i'w gwylio ar wahanol adegau. |
| Labordy ar-lein | Term a ddefnyddir i ddisgrifio ffyrdd o ddyblygu gweithgareddau mewn labordai ffisegol megis efelychiadau, arbrofion, tripiau maes realiti rhithwir a darlledu o labordy sy'n cysylltu staff a myfyrwyr drwy ffrydio fideos yn fyw. |
| Lletya ar y cwmwl | Mae'r term *lletya ar y cwmwl* yn disgrifio'r broses sydd gan sefydliadau o gael contract allanol gyda darparwr gwasanaeth pell i ddarparu eu cyfleusterau cyfrifiadurol a storio eu data. Gall y staff a'r myfyrwyr storio a chyrchu'r holl adnoddau, neu rai o'r adnoddau, sy'n angenrheidiol i ddarparu rhaglen drwy gyfrwng y cwmwl gan ddefnyddio dyfeisiau a meddalwedd addas. Mae modd i nifer o ddefnyddwyr gyrchu'r adnoddau hyn ar yr un pryd. |
| Llyfrgell gynnwys | Mae llyfrgell gynnwys yn debyg i lyfrgell draddodiadol ac mae'n ystorfa ddigidol o ffolderi a ffeiliau y gall defnyddwyr awdurdodedig eu cyrchu. |
| Llythrennedd digidol | Gallu unigolyn i ddefnyddio gwybodaeth ddigidol a thechnolegau perthnasol i ganfod, gwerthuso, creu a chyfathrebu gwybodaeth. Mae'r math hwn o lythrennedd yn gofyn sgiliau gwybyddol a thechnegol. |
| Micro-ddysgu | Gweithgareddau dysgu bach i arddangos sgil penodol neu ffocws ar derm neu fwlch mewn gwybodaeth. |
| Mynediad digidol | Y gallu i gyfranogi mewn dysgu drwy ddulliau digidol. Mae hyn yn cynnwys darparu caledwedd a meddalwedd priodol i wneud y dysgu digidol yn haws ei gyrchu. |

| | |
|---|---|
| Offer recordio a darlledu sgrin | Meddalwedd cipio sgrin sy'n galluogi i'r defnyddiwr dynnu sgrinlun a'i anodi a'i olygu. Mae sgrinlediad yn recordiad fideo o sgrin dyfais y defnyddiwr y gellir ei rannu gydag eraill. Gellir ychwanegu nodiadau esboniadol, sy'n glywedol neu'n ysgrifenedig. |
| Platfform | Yng nghyd-destun e-ddysgu, byddai *platfform* fel arfer yn disgrifio'r seilwaith meddalwedd y mae'r *rhith-amgylchedd dysgu* wedi'i adeiladu arno. |
| Podlediad | Ffeil sain ddigidol (o ddarllediad radio'n aml) sydd ar gael i'w lawrlwytho i ddyfeisiau. |
| Podlediad fideo | Ffeil fideo ddigidol (fersiwn fideo o ddarllediad radio'n aml) sydd ar gael i'w lawrlwytho i ddyfeisiau. Gall y term hwn hefyd gwmpasu *blogiau fideo*. |
| Porth | Platfform ar-lein sy'n gweithredu fel 'mynedfa' i ddolenni i gyrraedd ffynonellau allweddol o wybodaeth. Gallai porth myfyrwyr, er enghraifft, ddarparu dolenni at *rith-amgylchedd dysgu*, system e-bost i fyfyrwyr, adnoddau dysgu a gwasanaethau cymorth myfyrwyr. |
| Realiti estynedig | Mae *realiti estynedig* yn broses sy'n troshaenu'r byd ffisegol gyda gwybodaeth dysgu neu addysgu ddigidol. Gall y term hwn hefyd gwmpasu *realiti cymysg*. |
| Rhith-amgylchedd dysgu | Platfform ar gyfer cefnogi'r dysgu a'r addysgu (yn arbennig dysgu digidol) a darparu gofod ar gyfer adnoddau dysgu. Bydd yr union swyddogaethau ac adnoddau a ddarperir gan bob platfform yn amrywio a bydd cyfleoedd i addasu ac ychwanegu pecynnau yn dibynnu ar anghenion. Yn y mwyafrif o achosion, bydd rhith-amgylchedd dysgu'n darparu, o leiaf, ystorfa o ddogfennau (er enghraifft, gwybodaeth am raglenni/ modiwlau, amserlenni, polisïau a gweithdrefnau), yn darparu cyfle i gyfnewid negeseuon ac yn cefnogi cyflwyno asesiadau a rhoi adborth ar y gwaith a asesir. |
| Rhith-ystafell ddosbarth | Amgylchedd digidol sydd ar gael ar blatfform rhith-ddysgu, sy'n efelychu'r ystafell ddosbarth ffisegol mewn ffordd rithwir, gan alluogi i diwtoriaid a staff gyfathrebu, rhyngweithio a chyfranogi mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu ar yr un pryd. |
| System rheoli cynnwys | Mae'r system rheoli cynnwys yn feddalwedd a ddefnyddir i reoli cynnwys yn gyson (er enghraifft, dogfennau, lluniau, fideos) ac i alluogi i nifer o gyfranwyr gynhyrchu, golygu a chyhoeddi cynnwys. |
| System rheoli dysgu | Platfform ar gyfer cynllunio a darparu cynnwys yn ddigidol - a ddefnyddir fel arfer ar ddyfeisiau - sy'n galluogi i ddulliau amrywiol o ddysgu ac addysgu gael eu defnyddio. Trwy system rheoli dysgu, gall darparwr ddefnyddio fideos neu bodlediadau, er enghraifft, i gefnogi a chyfoethogi dulliau dysgu digidol. |
| System rheoli marciau/graddau | System ddigidol o reoli graddau asesu a rhoi marciau i fyfyrwyr. |

| | |
|---|---|
| Technoleg gynorthwyol | Darn o offer neu system a ddefnyddir i wella neu ehangu gallu'r dulliau dysgu digidol a'u gwneud yn haws eu cyrchu. Mae hyn yn arbennig o bwysig i unigolion sydd ag anabledd neu anhawster wrth ddilyn dulliau dysgu digidol. |
| Tlodi digidol | Y gydnabyddiaeth bod rhai myfyrwyr yn methu cael dyfeisiau cystal, neu cymaint o ddyfeisiau, â myfyrwyr eraill ar gyfer manteisio ar ddulliau dysgu digidol. Mae hyn yn ymestyn hefyd i gynnwys diffyg mynediad i'r we am nad oes ganddynt led band o gwbl, neu fawr ddim, a byddai hynny'n effeithio'n negyddol ar ansawdd eu profiad dysgu digidol. |
| Troi'n gêm | Dull addysgu sy'n defnyddio egwyddorion gêm i gyfoethogi'r dysgu a'r ymgysylltu. Yn aml iawn, mae hyn yn cynnwys defnyddio elfennau ac egwyddorion cynllunio gêm mewn cyd-destunau y tu allan i fyd gemau, er enghraifft, cyfres o weithgareddau a phrosesau i ddatrys problemau gan ddefnyddio neu gymhwyso nodweddion elfennau gêm. Yn aml iawn, yr hyn a geir yw myfyrwyr yn derbyn ac yn cwblhau cyfres o dasgau sy'n eu helpu i gyflawni targed cyffredinol. Nod y dull hwn yw sicrhau cymaint o fwynhad a sylw ag sy'n bosibl gan y myfyriwr drwy ennyn eu diddordeb a'u hysbrydoli i barhau i ddysgu. |
| Twyllo digidol | Twyllo yw unrhyw weithred a fwriedir i alluogi i fyfyriwr sicrhau mantais academaidd annheg neu helpu myfyriwr arall i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, llên-ladrad, cydgynllwynio, defnyddio gwasanaethau 'twyll contract', twyllo mewn arholiad (er enghraifft, drwy ddefnyddio deunyddiau heb ganiatâd mewn arholiad), neu ffugio data ymchwil. Mae twyllo digidol yn dwyllo sy'n digwydd mewn amgylchedd digidol. Efallai bod rhai dulliau o dwyllo'n fwy tebygol o ddigwydd mewn amgylchedd digidol lle gallai'r mecanweithiau digidol ei gwneud hi'n haws twyllo, er bod dulliau digidol yn ddefnyddiol ar y llaw arall i helpu i ganfod twyll (er enghraifft, drwy ddefnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad ac arolygu digidol). |

## Cydnabyddiaethau

Mae QAA yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau dilynol am eu cymorth i ddatblygu'r ddogfen hon:

- Yr Athro Alasdair Blair, Prifysgol De Montfort Caerlŷr
- Dr Gary Campbell, Prifysgol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd
- Mr Mick Cottam, Coleg Myerscough
- Ms Fiona Crosbie, Interactive Design Institute
- Yr Athro Ian Dodd, Prifysgol Caerhirfryn
- Dr Harriet Dunbar-Morris, Prifysgol Portsmouth
- Mr Ian Dunn, Prifysgol Coventry
- Ms Rebecca Galley, Y Brifysgol Agored
- Yr Athro Blair Grubb, Prifysgol Dundee
- Yr Athro Tina Harrison, Prifysgol Caeredin
- Ms Marion Justice, Coleg Bishop Burton
- Yr Athro James Knowles, Coleg Brenhinol Holloway, Prifysgol Llundain
- Yr Athro Jackie Labbe, Prifysgol De Montfort Caerlŷr
- Ms Helen Molton, Coleg Bishop Burton
- Yr Athro Helen O'Sullivan, Prifysgol Keele
- Ms Rachel Riley, Interactive Design Institute
- Mr Sean Robson, University Centre Quayside, Newcastle upon Tyne
- Ms Arlene Stewart, Interactive Design Institute
- Dr Sue Ward, Prifysgol Caerhirfryn
- Yr Athro Tom Ward, Prifysgol Leeds
- Yr Athro Martin Weller, Y Brifysgol Agored
- Mr Nick Worthington, Prifysgol Coventry Ar-lein

Cyhoeddwyd - 25 Mehefin 2020

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2020
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk